
Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

| | |
|----------------------------|--|
| Enw / Name: | Meilyr Rowlands |
| Rôl / Role: | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| E-bost / Email: | Prifarolygydd@estyn.llyw.cymru |
| Rhif Ffôn / Tel No: | 02920 446 446 |
| <hr/> | |
| Dyddiad / Date: | 29.05.2020 |
| Pwnc / Subject: | Holiadur SICI |

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

A yw nod gyntaf SICl (*cefnogi gwelliant arolygiaethau a chymwyseddau proffesiynol arolygwyr*) wedi'i gyflawni ar sail y camau gweithredu sylfaenol? Pa gamau gweithredu sydd wedi cael eu rhoi ar waith, a pha rai sydd heb? Pa gamau gweithredu y gellir eu gwella a sut?

Mae gweithdai a chynadleddau yn cael eu gwerthfawrogi ac maent yn helpu i gefnogi gwelliant arolygiaethau. Fodd bynnag, byddai cryfhau'r dull o werthuso effaith pob gweithdy unigol yn ddefnyddiol, er enghraifft i ystyried sut mae wedi dylanwadu ar waith arolygiaethau ymhellach.

Gall pa mor dda y mae gweithdai'n cefnogi gwelliant arolygiaethau unigol amrywio yn sylweddol. Weithiau, mae'r ymdrech i geisio apelio i bob aelod yn golygu bod ffocws gweithdai'n gallu mynd yn rhy gyffredinol. Er enghraifft, yn y Cynulliad Cyffredinol diwethaf, cafodd awgrym y dylai'r gweithdai ganolbwyntio'n fwy ar fedrau ac offer ei wrthod gan yr arolygiaethau hynny nad ydynt yn gweithio fel hyn. Fodd bynnag, gallai fod yn ddefnyddiol pe bai cydbwysedd teg rhwng trafodaeth polisi lefel uchel a dysgu proffesiynol sy'n canolbwyntio ar amlygu cymwyseddau a dulliau. Gallai ffocws y dysgu proffesiynol hwnnw gael ei fireinio ymhellach trwy ganolbwyntio ar faterion pwnc, fel arolygu'r ddarpariaeth ar gyfer ADY neu arolygu llythrennedd neu ymagweddau at ymchwil thematig.

A yw ail nod SICl (*hyrwyddo a chefnogi partneriaeth a chydweithredu rhwng arolygiaethau*) wedi'i gyflawni ar sail y camau gweithredu sylfaenol? Pa gamau gweithredu sydd wedi cael eu rhoi ar waith, a pha rai sydd heb? Pa gamau gweithredu y gellir eu gwella a sut?

Mae llawer o brosiectau rhwng grwpiau o aelodau SICl sy'n caniatáu am drafodaethau manwl ar bynciau diffiniedig, felly cyflawnwyd yr amcan hwn. Yn benodol, mae gweithio'n agos ag aelodau SICl mewn partneriaeth, trwy brosiectau fel prosiect BIBESOIN ac mewn grwpiau Alltraeth - trwy ein grŵp cyfredol y DU ac Iwerddon yn bennaf - wedi bod yn effeithiol o ran ein galluogi i rannu arfer yn ymwneud â chostau arolygiadau, dulliau o ymdrin â chwynion, mynd i'r afael ag amgyffredion o broblemau baich gwaith athrawon, ac effaith arolygu ar ddulliau ysgolion o fynd i'r afael ag anfantais. Hefyd, mae'r prosiectau'n helpu i hwyluso cysgodi swyddi ym maes arolygu ac ymweliadau'n canolbwyntio ar agweddau penodol ar waith, er enghraifft gweithio thematig. Mae'r gweithgareddau hyn yn ategu arloesedd, syniadau ynghylch trefniadau arolygu newydd, ac maent yn rhoi cyfleoedd ymarferol ar gyfer cydweithredu traws-gwlad. Hefyd, maent yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygiad proffesiynol yr arolygwyr dan sylw.

A yw trydydd nod SICI (*cymryd rhan yn weithgar yn y drafodaeth ryngwladol ar werthuso a gwella ansawdd mewn addysg*) wedi'i gyflawni ar sail y camau gweithredu sylfaenol? Pa gamau gweithredu sydd wedi cael eu rhoi ar waith, a pha rai sydd heb? Pa gamau gweithredu y gellir eu gwella a sut?

Mae cyfraniadau gan aelod-wladwriaethau ynghylch gwerthuso wedi helpu i lywio'r meddwl am y cysyniad o werthuso a'i effaith ar wella ansawdd, a chafwyd rhai cynadleddau/gweithdai addysgiadol a defnyddiol iawn ar y pwnc hwn.

Ar y cyfan, byddai'n ddefnyddiol cryfhau'r agwedd hon ar waith SICI. Er enghraifft, mae prosiect BIBESOIN yn rhagweld rhannu canfyddiadau gydag arolygiaethau eraill SICI. Fodd bynnag, nid yw'n amlinellu'n glir sut y gallai'r gwaith hwn ddylanwadu ar bolisi cenedlaethol(amlwladol). Byddai'n ddefnyddiol pe bai SICI yn gallu ystyried gwneud mwy i gymryd rhan mewn trafodaethau polisi ar lefel amlwladol.

Yn gyffredinol, a ydych chi o'r farn y dylai'r camau gweithredu gael eu newid yn llwyr? Neu a ddylid eu cadw a'u haddasu? Pam felly?

Byddai'n ddefnyddiol pe bai mwy o ffocws ar wella cymwyseddau arolygiaethau – sy'n ystyried yr amrediad eang o swyddogaethau sydd ganddynt – gan gynnwys medrau arolygu a gweithio thematig.

Ar y cyfan, beth yw eich barn/syniadau chi am y cynllun strategol presennol?

Byddai'n elwa pe bai ganddo ddogfen glir, ychwanegol, i ddarparu manylion mwy penodol. Gweler adborth pellach o dan y cwestiwn am Femorandwm Bratislava.

Sut gwnaeth SICI fesur cynnydd ei nodau/amcanion? A ydych chi o'r farn y dylai'r dull o fesur cynnydd gael ei newid? Pam a beth fyddech chi'n ei newid?

Yn aml, nid yw cynhalwyr gweithdai yn gofyn am adborth ar weithgareddau yn y fan a'r lle. Byddai holiadur safonol ar gyfer pob gweithdy/cyfarfod, efallai wedi'i gysylltu â'r cynllun strategol, yn caniatáu am olrhain cynnydd o ran cyflawni amcanion. Byddai crynodebau o werthusiadau ar y wefan (mewn ardal i aelodau yn unig, o bosibl) yn helpu o ran tryloywder hefyd.

Beth ddysgodd SICI am ei hun a'r amgylchedd/cyd-destun ar y ffordd?

Mae'n anodd i ni roi ymateb i'r cwestiwn hwn.

Pa heriau a olygodd fod SICI heb gyrraedd y nod?

Mae gwahaniaethau sylweddol rhwng y ffordd y mae aelod arolygiaethau yn cyflawni eu gwaith. O ganlyniad, mae perthnasedd a defnyddioldeb y themâu a ddewisir a'r gweithdai yn amrywio. Weithiau, bydd llawer o drafodaeth lefel uchel, ond bydd datblygu neu rannu medrau a chymhwysedd pendant yn fwy prin. Dylid cael cynllun strategol manwl y mae aelodau wedi cytuno arno ac y dylid nodi a chynllunio gweithdai a themâu ohono, ymhell ymlaen llaw. Gallai cyfraniad aelodau at lywio'r cynllun strategol gael ei gryfhau. Gweler sylwadau pellach o dan y cwestiwn ar Femorandwm Bratislava.

Byddai'n ddefnyddiol pe bai gwefan SICI yn darparu mwy o fanylion am ddiwyddiadau. Ar hyn o bryd, gall gwybodaeth fod yn brin a gall hyn gyfleu'r neges anghywir am waith SICI. Er enghraifft, ar y Rhestr Digwyddiadau, mae yno'r cofnod "Strategies and obstacles for innovation" a dywedir bod hwn wedi digwydd ar 3 Awst 2019. Mae hyn yng nghanol gwyliau'r haf ar gyfer holl systemau'r DU. Wrth glicio ar y ddolen, mae'n arwain at dudalen aros gyda llun ond dim dogfennau. O geisio chwarae mwy o ran yn ansawdd addysg ar lefel amlwladol, mae angen i'r wybodaeth ar y wefan fod yn fwy cadarn. Y wefan yw'r ffenestr i SICI o'r byd tu allan ac, felly, gallai bylchau a gwybodaeth anghywir niweidio delwedd y sefydliad yn rhyngwladol.

Byddai'n arbennig o ddefnyddiol cyhoeddi crynodebau o werthusiadau gweithdai ochr yn ochr â'r deunyddiau, i helpu gyda thryloywder.

Ni chaiff pob grŵp o wledydd eu cynrychioli ar y Pwyllgor Gweithredol – mae rhai grwpiau'n rhy eang. Gallai llinellau cyfathrebu rhwng aelodau'r Pwyllgor Gweithredol a'u grwpiau o wledydd gael eu cryfhau i gryfhau cydweithio a byddai mwy o eglurder ynghylch rôl aelodau'r Pwyllgor Gweithredol wrth gynrychioli safbwyntiau arolygiaethau unigol yn cael ei groesawu.

Mae'r adolygiad hwn o amcanion a chynllun strategol SICI yn rhoi cyfle da i adolygu aelodaeth bresennol y Pwyllgor Gweithredol i sicrhau bod ei brif aelodau yn staff presennol yr arolygiaethau a'u bod yn cynrychioli buddiannau pob grŵp perthnasol.

Pa strategaeth gyfathrebu a ddefnyddiwyd dros y blynyddoedd hyn? Beth oedd manteision ac anfanteision y strategaeth gyfathrebu hon?

Mae cylchlythyron SICI yn dda ac yn gyflwyniad sy'n cael ei groesawu. Ar adegau, mae'r dyddiadau cau yn rhy agos a gallai hyn rwystro rhai arolygiaethau rhag gwneud cyfraniad. Byddai blaengynllun gyda dyddiadau ar gyfer cyflwyniadau yn cael ei groesawu a gallai annog mwy o arolygiaethau i gyfrannu. Gellid cysylltu cylchlythyron SICI yn agosach â'r cynllun strategol.

Mae'r cyfathrebu ynghylch presenoldeb mewn gweithdai yn dda iawn ac yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, mae pa mor dda y mae arweinwyr gweithdai yn cyfathrebu ac yn cydlynu â phobl/arolygiaethau y maent yn eu gwahodd i siarad yn amrywio. Mae cyfathrebu manwl yn sicrhau bod y thema'n cael ei harchwilio'n llawn. Mae rhai arweinwyr gweithdai yn gofyn bod cyfranogwyr yn dod â gwybodaeth gyda nhw i helpu pobl eraill i ddeall eu dulliau nhw. Mae hyn yn ddefnyddiol ac yn cynorthwyo â rhannu ymarfer.

Sefydlwyd tudalen Yammer ar gyfer cydlynwyr cenedlaethol, ond ychydig bach iawn o bobl sy'n ei defnyddio. O ystyried bod llawer o wledydd yn dechrau defnyddio Teams yn fwy aml, gallai defnyddio'r platfform hwn gefnogi rhwydweithio agosach yn well.

Pa strategaeth gyfathrebu ddylai gael ei defnyddio yn y blynyddoedd i ddod? Beth fydd yn cael ei wella oherwydd y strategaeth hon o gymharu â'r strategaeth flaenorol? (*Byddwch yn benodol fan hyn*)

Byddai'n fuddiol pe bai strategaeth gyfathrebu yn y dyfodol yn cynnwys:

- Cysylltu cyfathrebiadau SICI â themâu presennol yn gliriach
- Gwefan gyfredol gyda phapurau a chrynodebau
- Negeseuon atgoffa amserol i werthuso gweithdai (efallai ar y safle, tra'n bresennol)
- Cyhoeddi gwerthusiadau ochr yn ochr â deunyddiau cynadleddau a sut maen nhw'n cyfrannu at y cynllun strategol
- Storfa ar wefan SICI o ymagweddau aelodau SICI at thema'r flwyddyn honno (i'w thynnu oddi yno pan fydd y thema yn newid)
- Er bod hyn wedi gwella'n fawr yn ddiweddar, gallai cyhoeddi dyddiadau pendant yn hytrach nag amserlenni bras ar gyfer gweithdai yn y dyfodol helpu arolygiaethau i sicrhau bod yr arolygwyr mwyaf priodol, gydag arbenigedd yn y maes perthnasol, ar gael i fynychu.

A ddylai'r cynllun strategol gael ei ddiweddarau gan ystyried Memorandwm Bratislava? Os dylai, pam? Os na ddylai, pam?

Gallai Memorandwm Bratislava (MB) gynnig sylfaen ar gyfer strwythur cynllun strategol SICI. Mae'n galw am waith meddwl sylweddol, ond mae'n cwmpasu llawer o themâu perthnasol i arolygiaethau sydd o hyd yn gyfredol heddiw. Byddai gweithio trwy'r ddogfen hon i gyflwyno cynllun strategol manwl o dan y prif amcanion yn cynnig map pendant ar gyfer gweithgareddau SICI. Er enghraifft, mae MB yn darparu ar gyfer *dysgu a'r angen am addysgu o'r ansawdd gorau* fel cynnig – ond ni roddir digon o sylw i agwedd *dysgu* ar weithgareddau SICI. Byddai'r dull hwn yn sicrhau bod themâu yn gyson â'r cyfeiriad strategol a bod ein gwaith yn gynhwysfawr. Risg y dull hwn yw y gallai anwybyddu pob cangen arall ar waith arolygiaethau, fel ymchwil thematig, a bydd angen ystyried yr agweddau hyn mewn unrhyw gynllun strategol diwygiedig.

Mae cyllideb benodol ar gael gan SICI ar gyfer cydweithrediadau rhwng ei haelodau. Dylai cydweithredu gael ei annog hefyd rhwng yr aelodau eu hunain, heb ysgogiad y Pwyllgor Gweithredol. Sut gall hyn gael ei wireddu?

Gallai darparu enghreifftiau rheolaidd o brosiectau ar y cyd a ariannwyd o dan y pennawd hwn helpu sefydliadau i ddeall p'un a ddaw eu syniad am brosiect o dan y cwmpas hwnnw.

Gallai tudalen prosiect ar y wefan, gyda disgrifiad o'r prosiect, y cyfranogwyr a deilliannau'r prosiect, ennyn mwy o ddi-ddordeb hefyd.

Yn sicr, mae ar SICI angen cryfhau ei gallu i gael cynadleddau mwy agored, a denu pobl sydd â diddordeb yn yr hyn sydd gan SICI i'w ddweud (gan gynnwys y rhai nad ydynt yn cymryd rhan yn SICI). Sut gall hyn gael ei wireddu?

Gellid amrywio cynadleddau; gallai rhain gadw'r strwythur presennol a gallai eraill gynnig cyflwyniad manwl i adnoddau a dulliau gweithio'r arolygiaeth sy'n cynnal y gynhadledd. Gallai SICI lunio cysylltiadau â sefydliadau ymchwil addysg neu sefydliadau polisi allweddol ym mhob gwlad a'r rheiny sy'n gweithio ar lefel amlwladol, e.e. yr OECD, a'u gwahodd i arsylwi ac, yn wir, siarad mewn prosiectau/gweithdai penodol.

Sut gall SICI ddod yn fwy gweladwy ar y llwyfan rhyngwladol?

Gallai SICI lunio cysylltiadau â sefydliadau ymchwil addysg neu sefydliadau polisi allweddol ym mhob gwlad a'u gwahodd i arsylwi prosiectau/gweithdai penodol

Y cwestiwn olaf: rhowch amlinelliad byr i mi o sut olwg ddylai fod ar y cynllun strategol newydd, yn eich barn chi:

- Gallai fod mwy o ffocws ar atebolrwydd a dulliau gwerthuso ansawdd sy'n ysgogi camau i wella deilliannau dysgu i ddysgwyr dan anfantais. Er bod hyn yn rhan o brosiectau BIBESOIN, gellid gwneud mwy i rannu ymagweddau.
- Dylid cael mwy o bwyslais ar fedrau, adnoddau ac ymagweddau at ddatblygiad proffesiynol arolygwyr.
- Gellid amrywio cynadleddau fel eu bod, weithiau, yn rhoi cyflwyniad manwl i ymagweddau arolygiaeth.
- Dylid rhoi mwy o bwyslais ar ddysgu proffesiynol, gan daro'r cydbwysedd cywir rhwng trafod a datblygu cymhwysedd.

- Dylai'r cynllun strategol fod yn fwy manwl er mwyn rhoi cwmpas mwy pendant i weithgareddau SICI. Er enghraifft, gallai Memorandwm Bratislava gynnig man cychwyn i gynllun cynhwysfawr a phendant ar gyfer gweithgareddau SICI
- Mae'r ffocws ar arloesi wedi bod yn ddiddorol iawn a gellid gwreiddio hyn yn y cynllun strategol.